# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

**Y Cynghorydd M J Williams** **Ward: Coety Uwch**

**Plaid: Annibynwyr Sir Pen-y-bont ar Ogwr**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2023**.** Fe'i darperir er gwybodaeth i bob etholwr ac nid at unrhyw ddiben arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

| |
|---|
| **<u>Rôl a Chyfrifoldebau</u>**<br><br>Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Coety Uwch ar 5 Mai 2022. Ar wahân i'm prif rôl fel aelod ward roeddwn hefyd yn aelod o'r pwyllgorau canlynol: Rheoli Datblygu, Safonau, Craffu a Throsolwg 3 (Cymunedau) a Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned.<br><br>Yn ystod y flwyddyn 2022/23 cefais gofnod presenoldeb 100% mewn cyfarfodydd a mynychais nifer o rai eraill i weld y trafodion. Cyflwynais 125 o atgyfeiriadau ac adroddiadau ffurfiol ar eich rhan a gohebais ar nifer o faterion eraill yn uniongyrchol gyda swyddogion ac aelodau'r Cabinet. Yn ogystal â hyn, bûm yn gohebu a chyfarfod â chynrychiolwyr cyrff allanol ar ran trigolion megis Tai Cymoedd i'r Arfordir, Heddlu De Cymru a Persimmon Homes.<br><br>Rwyf wedi bod yn gynghorydd gweithgar, gan gymryd rhan lawn yn y broses graffu a chyflwyno cwestiynau mewn cyngor llawn<br><br>Yn ogystal â'm cyfarfodydd cyngor ffurfiol rwyf wedi mynychu sesiynau datblygu aelodau rheolaidd a sesiynau briffio pwnc anffurfiol. |
| **<u>Gweithgarwch yn yr Etholaeth</u>**<br><br>Ar wahân i fy ngweithgaredd BCBC ffurfiol fel y nodwyd uchod, rwyf wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Persimmon Homes ar ran preswylwyr a hefyd wedi cyfarfod ag uwch swyddogion gweithredol Cymoedd i'r Arfordir ar wahanol faterion.<br><br>Mae fy ngweithgaredd yn amrywio o gefnogaeth i unigolion ar faterion sensitif lle maen nhw’n teimlo nad ydynt wedi gallu cael canlyniad boddhaol gan BCBC neu gorff arall, i faterion cymunedol fel faint o draffig sydd, tipio anghyfreithlon ac amodau priffyrdd.<br><br>Mae fy rôl fel cynghorydd yn amrywiol ac yn ystod y flwyddyn rwyf wedi delio â chwynion gan landlordiaid, budd-daliadau anabledd, bathodynnau glas, ymholiadau treth y cyngor, materion cynllunio ac wrth gwrs tyllau yn y ffordd. |

Rwy'n fwy na pharod i etholwyr gysylltu â mi ar unrhyw adeg.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwy'n angerddol am ddiogelwch ar y ffyrdd ac yn enwedig gwelliannau penodol o fewn Coety Uwch, gan gynnwys faint o draffig sydd ym Mhentref Coety a'r lonydd cyfagos, cyflymder traffig ar Litchard Hill a diffyg llwybrau diogel i gerddwyr yn ein cymuned.

Fel aelod o'r cyngor cymuned ers 2016, bûm yn hyrwyddo datblygiad eu cynllun mynediad cymunedol ac yn parhau i frwydro dros ei gyflwyno fel aelod BCBC.

Rwyf hefyd yn chwarae rhan flaenllaw yn y posibilrwydd o drosglwyddo asedau caeau chwarae Great Western Avenue a chaeau chwarae Litchard a chanolfan gymunedol i'r cyngor cymuned er mwyn caniatáu iddynt gael eu datblygu'n gyfleusterau chwaraeon enghreifftiol sydd hefyd yn asedau cymunedol ehangach i'r holl breswylwyr.

O fewn BCBC, mae gen i ddiddordeb arbennig yn eu rheolaeth o gyfalaf a phrosiectau lle rwy'n awyddus i weld gwell defnydd o adnoddau a chronfeydd wrth gefn i greu arbedion effeithlonrwydd i drigolion.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Rwyf wedi bod yn gynghorydd cymuned ers 2016 a fi yw Is-gadeirydd presennol Cyngor Cymuned Coety Uwch. Rwy’n credu’n gryf fod gan y cyngor cymuned y potensial i ddarparu llawer o'r gwasanaethau mae BCBC yn tynnu'n ôl ohonynt ac y dylai fod partneriaeth gryfach rhwng y ddau. Rwy'n parhau i frwydro dros hyn.

Yn ystod fy nghyfnod gyda'r cyngor cymuned rydym wedi cyflawni llawer o brosiectau arloesol. Rwy'n falch iawn bod prosiect ar y cyd â Ramblers Cymru o'r enw Llwybrau at Les eleni wedi gweld buddsoddiad allanol sylweddol yn ein llwybrau cerdded a'n bioamrywiaeth yn gyffredinol.

Rwyf wedi cefnogi nifer o grwpiau cymunedol/chwaraeon i godi arian, fel y twrnamaint pêl-droed 10 awr diweddar a gweithgareddau eraill yn yr ysgol. Rwyf hefyd yn trefnu'r digwyddiad Jam in the Castle bob blwyddyn i godi arian ar gyfer achosion da lleol.

Yn ystod 2022/23 ysgrifennais erthygl reolaidd hefyd ar gyfer cylchgrawn Bridgend Buddy.

Yn dilyn y Rhyfel yn Wcráin croesewais deulu o Wcráin i mewn i'm cartref am 6 mis nes eu bod yn gallu symud ymlaen ac rwyf wedi cefnogi ffoaduriaid Wcráin trwy godi arian ar gyfer anrhegion Nadolig.

**Y Cynghorydd M J Williams:** **Dyddiad: 30 Mehefin 2023**